

SGÔR HYLENDID BWYD

FOOD HYGIENE RATING

Ffurflen ar gyfer cais am arolygiad ailsgorio

Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Atodlen 3

Nodiadau ar gyfer busnesau

- Fel gweithredwr busnes bwyd mae gennych hawl, o dan adran 12 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, i wneud cais ar unrhyw adeg am arolygiad at y diben o ailsgorio, ar yr amod eich bod wedi talu costau rhesymol yr ailsgorio yn unol ag adran 13 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (oni fydd yr awdurdod bwyd wedi ymatal rhag gofyn am dalu'r costau hynny ymlaen llaw – fel y darperir ar ei gyfer yn adran 12(6) o'r Ddeddf, ac os felly, ceir talu'r costau ar ôl cwblhau'r arolygiad ailsgorio) **ac os bodlonir hefyd** yr amodau canlynol:
 - a) bod unrhyw apêl yn erbyn y sgôr hylendid bwyd bresennol wedi ei phenderfynu;
 - b) eich bod wedi hysbysu'r awdurdod bwyd y gwnaed gwelliannau yn safonau hylendid y sefydliad;
 - c) bod yr awdurdod bwyd o'r farn y byddai'n rhesymol arolygu ac asesu'r sefydliad ymhellach oherwydd y gwelliannau yr honnir eu bod wedi'u gwneud;
 - d) bod y sticer sgôr hylendid bwyd cyfredol yn cael ei arddangos yn eich sefydliad yn unol â gofynion adran 7 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a rheoliad 9 o Reoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013;
 - e) eich bod wedi cytuno i sicrhau y caniateir mynediad i'r awdurdod bwyd i gynnal arolygiad o'r sefydliad at y diben o ailsgorio.
- Bydd swyddog yr awdurdod lleol yn rhoi ichi sgôr hylendid bwyd '_newydd', ar sail y lefel o gydymffurfiaeth a ganfyddir ar adeg yr ail ymweliad – dylech fod yn ymwybodol y gall eich sgôr naill ai godi neu ostwng, neu aros fel y mae ar hyn o bryd.
- I wneud cais am ail ymweliad, defnyddiwch y ffurflen isod os gwelwch yn dda a dychwelwch y ffurflen at swyddog diogelwch bwyd eich awdurdod lleol – Gyngor Sir y Fflint, Adran Diogelwch Bwyd, Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NF.
- Gwneir yr ail ymweliad o fewn 3 mis ar ôl gwneud y cais, ac fel rheol ni roddir rhybudd ymlaen llaw.

Y gweithredwr busnes bwyd

Enw'r busnes

Cyfeiriadau busnes

| | | | |
|---------------------------|----------------------|--------------------------------|----------------------|
| Rhif teleffon y busnes | <input type="text"/> | | |
| Cyfeiriad e-bost y busnes | <input type="text"/> | | |
| Dyddiad yr arolygiad | <input type="text"/> | Y sgôr hylendid bwyd a roddwyd | <input type="text"/> |

| | |
|---|----------------------|
| Enw'r person cyswllt (os yw'n wahanol i'r gweithredwr busnes bwyd) | <input type="text"/> |
| Cyfeiriad y Brif Swyddfa neu gyfeiriadau'r person cyswllt (os ydynt yn wahanol i gyfeiriadau'r gweithredwr busnes bwyd) | <input type="text"/> |
| Rhif teleffon y person cyswllt | <input type="text"/> |

Os gwelwch yn dda, disgrifiwch y gwelliannau a wnaed gennych, gan gyfeirio at y materion a nodwyd yn y llythyr/adroddiad arolygu a anfonwyd atoch gan eich awdurdod lleol ynghyd â'ch sgôr hylendid bwyd:

| | |
|--|----------------------|
| Cydymffurfio â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd | <input type="text"/> |
| Cydymffurfio â gofynion strwythurol | <input type="text"/> |
| Hyder yn y gweithdrefnau rheoli a rheolaethau | <input type="text"/> |

Os gwelwch yn dda, darperwch unrhyw dystiolaeth atodol ychwanegol (e.e. ffotograffau, anfonebau, copïau o ddogfennau perthnasol, etc.)

| | | | |
|-------------------------|----------------------|---------|----------------------|
| Llofnod | <input type="text"/> | | |
| Enw mewn priflythrennau | <input type="text"/> | | |
| Swydd | <input type="text"/> | Dyddiad | <input type="text"/> |

Dychwelwch y ffurflen hon yn awr at eich awdurdod lleol